*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1132

# Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014

## RHAN 12

## YSGOLION FFEDERAL SY'N GADAEL FFEDERASIYNAU

### Y weithdrefn i ysgol adael ffederasiwn awdurdod lleol

**80.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gais a wneir i'r awdurdod lleol cynnal am i ysgol ffederal ("yr ysgol berthnasol") adael y ffederasiwn awdurdod lleol.

(2) Ni chaniateir gwneud cais os yw'r ysgol berthnasol yn destun ymyriad gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf 2013 oni bai bod yr awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) yn cytuno y caniateir gwneud y cais.

(3) Rhaid gwneud y cais mewn ysgrifen a rhaid ei lofnodi gan—

(a) dau neu ragor o lywodraethwyr;

(b) un rhan o bump o rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol berthnasol;

(c) dwy ran o bump o'r staff y telir iddynt am weithio yn yr ysgol berthnasol;

(d) yr awdurdod lleol;

(e) ymddiriedolwyr yr ysgol berthnasol; neu

(f) corff sydd â'r hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig i gorff llywodraethu'r ffederasiwn.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol berthnasol hysbysu'r canlynol am y cais—

(a) pob awdurdod lleol perthnasol;

(b) pennaeth y ffederasiwn neu (os nad oes pennaeth i'r ffederasiwn) penaethiaid pob un o'r ysgolion ffederal;

(c) pan fo'r ysgol berthnasol yn ysgol sefydledig neu wirfoddol sydd â sefydliad crefyddol, unrhyw ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol berthnasol ac, yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, neu'r corff crefyddol priodol yn achos pob ysgol arall o'r fath;

(d) corff sydd â'r hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig i gorff llywodraethu'r ffederasiwn;

(e) ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth unrhyw ysgol ffederal y ffederasiwn;

(f) yr holl staff y telir iddynt am weithio yn yr ysgol berthnasol;

(g) pob person y gŵyr ei fod yn rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol berthnasol;

(h) pob undeb llafur y gŵyr fod ganddo aelodau sy'n cael eu cyflogi i weithio mewn unrhyw un o'r ysgolion; ac

(i) pa bersonau eraill bynnag a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod lleol.

(5) Rhaid i'r hysbysiad o dan baragraff (4) gael ei roi o fewn y cyfnod o bum niwrnod gwaith clir sy'n dechrau ar y dyddiad y cafwyd y cais.

(6) Ystyrir bod yr awdurdod lleol wedi cael cais o dan baragraff (1) os rhoddwyd neu anfonwyd y cais at y prif swyddog addysg(**1**).

(7) Ymhen dim llai na 14 o ddiwrnodau gwaith clir wedi i'r awdurdod lleol roi hysbysiad o'r cais yn unol â pharagraff (4), rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y cais a'r holl ymatebion a gafwyd gan y personau yr anfonwyd hysbysiad o'r cais atynt, a rhaid iddo benderfynu—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (9), a ddylai'r ysgol berthnasol adael y ffederasiwn, ac os felly, ar ba ddyddiad y dylai wneud hynny ("y dyddiad dadffedereiddio") ("*the de-federation date*");

(b) a ddylid diddymu'r ffederasiwn ac, os felly, ar ba ddyddiad; neu

(c) a ddylai'r ysgol berthnasol beidio â gadael y ffederasiwn.

(8) Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad o dan baragraff (7) o fewn pum niwrnod gwaith clir i'r personau hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff (4).

(9) Rhaid i'r dyddiad dadffedereiddio a bennir gan y corff llywodraethu beidio â bod yn gynharach na 125 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y rhoddwyd hysbysiad o benderfyniad y corff llywodraethu o dan baragraff (8).

(**1**) O fewn ystyr adran 532 o Ddeddf 1996.